

# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

## Canllaw ar Ddiben Cyffredinol Adnoddau Naturiol Cymru

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol .....	1
Canllaw ar Ddiben Cyffredinol Adnoddau Naturiol Cymru .....	1
1. Cefndir a chyd-destun: Datblygu cynaliadwy ac adnoddau naturiol Cymru .....	3
1.1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) rhan un – rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol .....	3
1.2 Datblygu cynaliadwy .....	5
1.3 Ffyrdd o weithio.....	7
1.4 Beth mae hyn yn ei olygu i Cyfoeth Naturiol Cymru.....	7
2. Canllaw ar ddiben Cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru .....	9
2.1 Diben a chwmpas y canllaw .....	9
3. Diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru.....	10
3.1 Cefndir.....	10
3.2 Gwrthdaro .....	12
3.3 Darparu tystiolaeth ac adrodd yn ôl .....	12
4. Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.....	14
4.1 Diben a bwriad.....	14
4.2 Gofynion technegol.....	15
Adrodd ar y sefyllfa a’r tueddiadau presennol .....	15
Asesiad o’r graddau y mae SMNR yn cael ei gyflawni .....	15
Senarios yn y dyfodol.....	16
Blaenoriaethau a chyfleoedd i weithredu ar y lefel genedlaethol .....	16
Asesiad o Fioamrywiaeth .....	16
Dangosyddion canlyniad ar gyfer SMNR ar lefel genedlaethol .....	17
4.3 Adroddiad Drafft.....	17
5. Datganiadau Ardal .....	18
5.1 Diben a bwriad.....	18
5.2 Blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol .....	19
5.3 Elfennau gofodol.....	20
5.4 Graddfa .....	20
5.5 Sylfaen dystiolaeth integredig ar lefel leol.....	21

5.6 Blaenoriaethau gweithredu.....	21
5.7 Adrodd yn ôl .....	22
Atodiad .....	23
Cymhwyso diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru ar draws rolau a swyddogaethau a rheoli gwrthdaro .....	23
Defnyddio diben cyffredinol CNC a rheoli gwrthdaro .....	25

# 1. Cefndir a chyd-destun: Datblygu cynaliadwy ac adnoddau naturiol Cymru

## 1.1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) rhan un – rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol

**Adnoddau o safon uchel ac ecosystemau iach a gwydn yn ategu llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.**

Mae Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol er mwyn sicrhau bod adnoddau ac ecosystemau naturiol yn wydn ac yn gallu darparu buddiannau (gwasanaethau ecosystem) yn awr, ac i'r dyfodol, drwy '**reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy**'. Mae'r ddeddfwriaeth yn seiliedig ar arfer gorau rhyngwladol, sef y dull ecosystem, gan dynnu ar y 12 egwyddor a sefydlwyd gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD)<sup>1</sup>.

### Adran 3 – Y diffiniad o Reoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (SMNR)

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" yw —

- (a) defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan yn is-adran (2),
- (b) cymryd camau eraill sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan hwnnw, ac
- (c) peidio â chymryd camau sy'n llesteirio cyflawni'r amcan hwnnw.

(2) Yr amcan yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt ac, wrth wneud hynny

- (a) diwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a
- (b) cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Adran 4 – Egwyddorion SMNR

Mae'r naw egwyddor yn adlewyrchu'r camau gweithredu penodol y mae angen ymgymryd â hwy er mwyn gweithio tuag at amcan SMNR, yn deillio o'r arfer gorau rhyngwladol, sef y dull ecosystem.

Maent yn

<sup>1</sup> Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) yn disgrifio'r dull ecosystem fel '*a strategy on the integrated management of land, water and living resources that promotes conservation and sustainable use in an equitable way*'. Caiff hyn ei gydnabod yn gyffredinol fel yr arfer gorau'n rhyngwladol i fynd i'r afael â dirywiad mewn bioamrywiaeth.

- Rheoli mewn modd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd. Mae hyn yn darparu ar gyfer dull gweithredu addasol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys creu dealltwriaeth newydd a cheisio lleihau ansicrwydd, drwy ganiatáu i'r penderfynwr ragweld a pharatoi ar gyfer newid.
- Ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu
- Hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt
- Gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau
- Ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch
- Ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau
- Ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd
- Cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau
- Ystyried cydnerthed ecosystemau, ac yn benodol yr agweddau a ganlyn
  - (i) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
  - (ii) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
  - (iii) graddfa ecosystemau;
  - (iv) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);
  - (iv) gallu ecosystemau i addasu.

**Adran 5 – Y diben cyffredinol i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chymhwyso'r egwyddorion hynny wrth gyflawni ei swyddogaethau.**

Mae Erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn cyflwyno diben cyffredinol i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a chymhwyso'r egwyddorion hynny wrth arfer ei swyddogaethau. SMNR yw diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n adlewyrchu bod adnoddau naturiol o safon uchel ac ecosystemau iach a chydnerth yn sail i lesiant. Mae egwyddorion SMNR yn berthnasol ar draws holl swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Mae Adrannau 8, 9 a 11 – yn diffinio fframwaith cyflenwi addasol yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, Polisi ar Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal.**

Mae'r fframwaith cyflenwi addasol ar gyfer SMNR yn adrannau 8, 9 ac 11 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno fframwaith cyflenwi ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn y cyd-destun cenedlaethol a lleol:

- Mae'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, sy'n cael ei gynhyrchu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn olrhain y cynnydd sy'n cael ei wneud er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac mae'n gwasanaethu fel sylfaen dystiolaeth hollbwysig ar gyfer ategu'r Polisi ar Adnoddau Naturiol.
- Mae'r Polisi ar Adnoddau Naturiol yn nodi risgiau, cyfleoedd a blaenoriaethau cenedlaethol Gweinidogion Cymru ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol,

a'u polisiau cyffredinol a phenodol tuag at gyflawni SMNR gan ystyried y sylfaen dystiolaeth yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. Mae'r gwerthusiad cynaliadwyedd o'r Polisi ar Adnoddau Naturiol yn nodi sut mae'r blaenoriaethau'n cyfrannu at y nodau llesiant drwyddynt draw.

- Mae Datganiadau Ardal, sy'n cael eu cynhyrchu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn hwyluso'r broses o weithredu'r Polisi ar Adnoddau Naturiol, gan gynnwys y blaenoriaethau cenedlaethol yn y cyd-destun lleol; gan weithio ar draws prosesau cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn fwy cyffredinol gyda rhanddeiliaid. Mae datganiadau ardal yn darparu cyfle hefyd i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgorffori SMNR ar draws ei swyddogaethau.

### **Adrannau 6 a 7 – darpariaethau ar gyfer dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau a rhestrau bioamrywiaeth o rywogaethau a chynefinoedd sy'n hollbwysig i Gymru**

Mae bioamrywiaeth yn hollbwysig i'n hadnoddau naturiol am ei fod yn sail i strwythur a gweithrediad ein hecosystemau ac mae ganddo arwyddocâd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach. Mae gweithredu ar fioamrywiaeth wedi'i ymgorffori mewn fframwaith cyflawni ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae hyn yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried fel elfen hollbwysig sy'n cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau. Mae egwyddorion SMNR (lle mae rhinweddau cydnerthedd ecosystem yn cynnwys bioamrywiaeth) a'r Polisi ar Adnoddau Naturiol sy'n nodi'r gofyniad am rwydweithiau ecolegol gwydn fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, yn cael eu datblygu drwy ddatganiadau ardal.

Roedd Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno dyletswydd gryfach ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, o safbwynt bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Wrth gydymffurfio, mae'n rhaid i awdurdod lleol ystyried cydnerthedd ecosystemau, a'r agweddau a ganlyn yn benodol -

- (a) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- (b) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- (c) graddfa ecosystemau;
- (d) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);
- (e) gallu ecosystemau i addasu.

Mae Adran 7 yn datgan bod yn rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organebau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd, yn eu barn hwy, yn hollbwysig at y diben o gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

## **1.2 Datblygu cynaliadwy**

Yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ystyr 'datblygu cynaliadwy' yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, er mwyn cyflawni'r nodau llesiant.

Yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae unrhyw gyfeiriad at gorff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "*yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy*" yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn datgan bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'n rhaid i'r camau gweithredu a gymerir gan gorff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy gynnwys:

a. pennu a chyhoeddi amcanion ('amcanion llesiant') a gynlluniwyd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf ar gyfer cyflawni pob un o'r nodau llesiant, a

b. cymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r saith nod llesiant ('y nodau') yn dangos y math o Gymru a garem. Gyda'i gilydd, maent yn darparu gweledigaeth a rennir y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio tuag atynt. Maent yn gyfres o nodau; ac mae'r Ddeddf yn datgan yn glir bod yn rhaid i'r gyrff cyhoeddus weithio i gyflawni pob un o'r nodau, nid dim ond un neu ddau ohonynt.

Wrth gyhoeddi'r amcanion llesiant mae'n rhaid i gorff cyhoeddus hefyd gyhoeddi datganiad sy'n:

(a) egluro pam y mae corff yn ystyried y bydd cyflawni'r amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant;

(b) egluro pam y mae corff cyhoeddus yn ystyried ei fod wedi pennu amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys sut mae'r corff yn cynnig cynnwys personau eraill â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru (lle mae'r corff yn arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â Chymru gyfan)

(c) nodi'r camau y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny yn unol â'r egwyddor (gan gynnwys sut y mae'n bwriadu ei lywodraethu ei hun, sut y bydd yn parhau i adolygu'r camau a sut y mae'n bwriadu sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n flynyddol at ddiben cymryd camau o'r fath);

(d) pennu'r cyfnodau erbyn pryd y mae'r corff yn disgwyl y bydd yn cyflawni'r amcanion;

(e) darparu unrhyw wybodaeth arall y bydd y corff yn ei hystyried yn briodol ynghylch cymryd y camau a chyflawni'r amcanion.

### 1.3 Ffyrdd o weithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi 5 peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried i ddangos eu bod wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd dilyn y ffyrdd o weithio hyn yn helpu Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru i gydweithio'n well, i osgoi ailadrodd camgymeriadau blaenorol, ac i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor yr ydym yn eu hwynebu.

Y ffyrdd o weithio yw

- Hirdymor – pwysigrwydd cydbwysio anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gyflawni anghenion tymor hir hefyd
- Atal – Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion
- Cydweithredu - Cydweithio ag unrhyw berson arall (neu ran arall o'r un corff) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.
- Cyfranogi - pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.
- Integreiddio – Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

### 1.4 Beth mae hyn yn ei olygu i Cyfoeth Naturiol Cymru

**Mae adnoddau naturiol o safon uchel ac ecosystemau iach a chydnerth yn ategu llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.**

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd ar ddefnyddio diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni SMNR wrth arfer ei swyddogaethau yn ddull allweddol y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru ei ddefnyddio i ddarparu tystiolaeth ar weithredu'r ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ceir meysydd lle gallai Cyfoeth Naturiol Cymru arddangos sut mae SMNR a Datblygu Cynaliadwy yn cael eu gweithredu'n ymarferol yr un pryd. Er enghraifft:

- Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei hadlewyrchu yn y diffiniad o reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Amcan SMNR yw cynnal a gwella cydnerthed ecosystemau a'r manteision (gwasanaethau ecosystem) a gynigir ganddynt, ac wrth wneud hynny diwallu'r cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

- Cymhwyso egwyddorion cyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn briodol yn erbyn y 5 ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn cysylltiad â rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ac ecosystemau.

Wrth bennu a chyhoeddi amcanion ('amcanion llesiant') a chynhyrchu datganiadau yn esbonio pam y bydd yr amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant:

- Bydd yr egwyddorion SMNR yn berthnasol, yn ogystal â'r pum ffordd o weithio.
- Bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a'r Polisi ar Adnoddau Naturiol (a gynhyrchir drwy ddefnyddio egwyddorion SMNR yn briodol) yn adnoddau allweddol y bydd yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru eu defnyddio. Y rhain sy'n cyflwyno'r sylfaen dystiolaeth genedlaethol a blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

Wrth gynhyrchu datganiadau sy'n esbonio pam eu bod yn credu eu bod wedi pennu amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy:

- Bydd yr egwyddorion SMNR yn berthnasol, yn ogystal â'r 5 ffordd o weithio.

Wrth gyflwyno'r camau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion yn unol â'r egwyddor (gan gynnwys sut mae'n cynnig llywodraethu ei hun, sut y bydd yn adolygu'r camau, a sut mae'n bwriadu sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n flynyddol at y diben o gymryd camau o'r fath; y cyfnodau o amser y mae'r corff yn disgwyl cyflawni'r amcanion a gwybodaeth briodol arall):

- Mae cynllun corfforaethol a chynlluniau busnes blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddogfennau allweddol y gallai Cyfoeth Naturiol eu defnyddio er mwyn cyflwyno'r gofynion hyn.
- Mae datganiadau ardal hefyd yn ddogfennau allweddol y gall Cyfoeth Naturiol Cymru eu defnyddio i gofnodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant
  - i'r graddau y mae'r amcanion llesiant yn gysylltiedig ag agwedd o'r Polisi ar Adnoddau Naturiol y bwriedir i'r datganiad ardal fynd i'r afael â hwy os ydynt yn cael eu cynhyrchu o dan adran 11(1), neu
  - i'r graddau y mae'r amcanion llesiant yn gysylltiedig ag unrhyw ddiben arall wrth arfer ei swyddogaethau os ydynt wedi'u cynhyrchu o dan a11 (2).



## 2. Canllaw ar ddiben Cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru

### 2.1 Diben a chwmpas y canllaw

Cyflwynir y canllaw hwn i Cyfoeth Naturiol Cymru o dan erthygl 5(1) Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 ('y Gorchymyn Sefydlu') mewn cysylltiad â'i ddiben cyffredinol. Mae Erthygl 5(3) y Gorchymyn Sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y canllaw hwn wrth arfer ei ddiben cyffredinol.

Dylid darllen y canllaw ochr yn ochr â rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), y nodiadau esboniadol a'r memorandwm cysylltiedig, a'r Polisi ar Adnoddau Naturiol. Nid yw'n eu dyblygu, ond yn hytrach mae'n esbonio

- Proses a gofynion adrodd ar gyfer delio ag unrhyw wrthdaro rhwng y diben cyffredinol a swyddogaeth benodol.
- Gofynion ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ac adrodd ar ddiben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Polisi ar Adnoddau Naturiol drwy ddatganiadau ardal.
- Gofynion technegol ar gyfer yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal

Mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddarau a'i hysbysu wrth i reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (SMNR) gael ei weithredu'n ymarferol.

Mae copi o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a'r Nodiadau Esboniadol ar gael yn y ddolen ganlynol: <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted>

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Ddeddf wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn: <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-act/?lang=cy>

Cyhoeddir y Polisi ar Adnoddau Naturiol ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/natural-resources-policy/?skip=1&lang=cy>

### 3. Diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru

#### 3.1 Cefndir

Sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru fel y corff amgylcheddol a chadwraeth yng Nghymru gan y Gorchymyn Sefydlu ac mae'n nodi ei swyddogaethau cyffredinol. Mae Erthygl 4 y Gorchymyn Sefydlu yn nodi diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru, sef sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy er budd pobl, amgylchedd ac economi Cymru heddiw ac yn y dyfodol.

**Roedd Adran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn disodli erthygl 4 y Gorchymyn Sefydlu gan nodi diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru i geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:**

**Mae'n rhaid i'r Corff**

**a) ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, a (b) cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau y bo hynny'n gyson â'u harfer yn briodol.**

*Mae'r geiriau 'wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau y bo hynny'n gyson â'u harfer yn briodol' yn berthnasol i ddwy ran diben cyffredinol CNC h.y. (a) a (b).*

Mae'r diben cyffredinol yn darparu dull cyson i CNC gyflawni ei swyddogaethau, yn seiliedig ar y dull ecosystem, i sicrhau mai rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yw diben cyffredinol CNC.

**Mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn adran 3 yn nodi**

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" yw—

- (a) defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan yn is-adran (2),
- (b) cymryd camau eraill sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan hwnnw, ac
- (c) peidio â chymryd camau sy'n llesteirio cyflawni'r amcan hwnnw.

(2) Yr amcan yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt ac, wrth wneud hynny

- (a) diwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a
- (b) cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Adran 3 (1) yn datgan bod cwmpas SMNR yn disgrifio sut y mae adnoddau naturiol Cymru yn cael eu defnyddio a'u rheoli'n uniongyrchol, yn ogystal ag effeithiau gweithgareddau eraill ar gydnerthedd yr adnoddau a'r ecosystem hyn.

**Mae Adran 3 (2) yn datgan mai amcan SMNR yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision (gwasanaethau ecosystem) a gynigir ganddynt, ac wrth wneud hynny diwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

**Cyflwynir egwyddorion SMRN yn adran 4. Y rhain yw:**

(a) Rheoli mewn modd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd.

Mae hyn yn darparu dull addasol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys creu gwybodaeth newydd a cheisio lleihau ansicrwydd, gan alluogi penderfynwyr i ragweld a pharatoi ar gyfer newid.

(b) ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu. Mae hyn yn cynnwys ystyried y lefel ofodol leol, ranbarthol neu genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael â mater(ion).

(c) hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt;

(d) gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;

(e) ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch.

Mae paragraffau (c), (d) ac (e) yn galw am weithio gyda rhannau priodol o gymdeithas. Dylid gwneud penderfyniad drwy ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd gan randdeiliaid perthnasol a gwahanol rannau o gymdeithas, gan gynnwys cymunedau lleol a'r cyhoedd er enghraifft. Nid yw'r term "tystiolaeth" yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at dystiolaeth wyddonol yn unig a byddai'n cynnwys gwybodaeth leol yn ogystal â data empirig a thystiolaeth wyddonol.

(f) ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau. Mae hyn yn gofyn bod manteision (gwasanaethau ecosystem) a ddarperir gan adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru yn cael eu nodi a'u hystyried, yn ogystal â gwerth cynhenid yr ecosystemau a'r adnoddau hynny, sef gwerth yr adnoddau naturiol a'r ecosystemau eu hunain. Dylid ystyried pob mantais (neu wasanaeth) darparu, cefnogi, rheoleiddio a diwylliannol, fel y bo'n briodol.

(g) ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd.

Mae hyn yn gofyn bod canlyniadau tymor byr, canolig a hirdymor yn cael eu hystyried, gan gynnwys oedi ac amseroedd adborth i ecosystemau ymateb i'n hymyriadau.

(h) cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau.

Mae hyn yn gofyn bod camau gweithredu yn cael eu cymryd i atal niwed sylweddol i ecosystemau. Mae'n darparu dull ataliol o fewn yr egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

(i) ystyried cydnerthedd ecosystemau ac yn benodol, yr agweddau a ganlyn—

(i) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;

- (ii) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- (iii) graddfa ecosystemau;
- (iv) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);
- (v) gallu ecosystemau i addasu.

Mae hyn yn gofyn am ystyried agweddau penodol o gydnerthedd ecosystemau. Nid yw hon yn rhestr gyflawn ond mae'n nodi, at ddibenion y Rhan hon, yr agweddau allweddol mewn ecosystemau cydnerth.

Drwy wneud hyn, mae'r ddarpariaeth yn cyflwyno dull cyson o gyflawni swyddogaethau CNC yn seiliedig ar y dull ecosystem, er enghraifft: ystyried effeithiau ei benderfyniadau ar gydnerthedd ecosystemau a gallu'r ecosystemau i ddarparu gwasanaethau cefnogi, gwasanaethau rheoleiddio, gwasanaethau darparu a gwasanaethau diwylliannol, a thrwy hynny, gallu ein hadnoddau naturiol i gyflawni anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cenedlaethau heddiw ac yfory.

### 3.2 Gwrthdaro

Mae diben cyffredinol CNC yn berthnasol ar draws pob un o swyddogaethau CNC (sydd wedi'u cynnwys mewn amrediad eang o ddeddfwriaeth) ac felly ar draws pob un o'i ddyletswyddau a'i bwerau statudol. Nid yw'r diben cyffredinol yn swyddogaeth benodol ac fe'i cynlluniwyd i sicrhau nad yw'n gwrthdaro'n gyfreithiol â swyddogaethau neu ddyletswyddau presennol CNC. Fodd bynnag

Bydd angen i CNC ystyried sut mae ei ddiben cyffredinol yn gweithio ochr yn ochr â'i ddyletswyddau eraill ar sail achosion unigol. **Gweler yr Atodiad.**

### 3.3 Darparu tystiolaeth ac adrodd yn ôl

Pan fydd CNC yn cyflawni unrhyw swyddogaeth, bydd yn rhaid iddo ddarparu tystiolaeth o sut y cyflawnwyd y diben cyffredinol neu pa gamau sy'n cael eu cymryd i gyfrannu ato. O dan atodlen 1, paragraff 22 y Gorchymyn Sefydlu, mae'n ofynnol i CNC baratoi **adroddiad blynyddol** ar sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn. Hwn yw'r dull adrodd a ddefnyddir gan CNC i roi adroddiad ar gynnydd.

Mae'n rhaid i CNC gyflwyno'r canlynol yn ei adroddiad blynyddol:

**Mewn cysylltiad â'i ddiben cyffredinol i ymgynhyrchu at SMNR wrth arfer ei swyddogaeth**

- Y ffyrdd y datblygwyd y diben cyffredinol mewn cysylltiad â rolau a swyddogaethau gwahanol CNC
- Nodi unrhyw wrthdaro rhwng cymhwyso'r diben cyffredinol a swyddogaeth benodol

- Y ffyrdd y mae arferion gweithredol wedi'u diwygio i ymgorffori SMNR ac unrhyw rwystrau a nodwyd.

**Sut mae'r Polisi Ar Adnoddau Naturiol, gan gynnwys y blaenoriaethau cenedlaethol, wedi'u rhoi ar waith mewn cyd-destun lleol drwy Ddatganiadau Ardal, gan gynnwys:**

- Datganiad ar sut a pham y mae cam gweithredu wedi'i flaenoriaethu i sicrhau'r effaith a'r budd mwyaf, fel bod cyswllt clir yn ôl i'r gwerthusiad o gynaliadwyedd yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol. Mae'r Polisi'n datgan bod *atebion sy'n seiliedig ar natur sy'n cael eu targedu at yr ardaloedd a fyddai'n elwa fwyaf - lleoliad, graddfa a chyflymder cyflwyno prosiectau - yn hollbwysig*. Mae datganiadau ardal yn chwarae rhan allweddol o ran cyflwyno elfen ofodol y Polisi ar Adnoddau Naturiol drwy nodi'r ardaloedd hynny yng Nghymru lle gall gweithredu ar y raddfa gywir, yn uniongyrchol gan CNC a drwy eiriol gan eraill, gynyddu'r manteision a chanfod cydweithrediad ar draws meysydd polisi. Y bwriad yw bod gweithredoedd CNC ac eraill yn canolbwyntio ar yr ardaloedd a fyddai'n elwa fwyaf a bod angen nodi'r ardaloedd hyn yn glir, yn ogystal â'r rhesymeg pam eu bod wedi'u blaenoriaethu.
- Dangosyddion canlyniadau SMNR ar gyfer Datganiadau Ardal yn cydweddu â'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol yn SoNaRR, pan fydd hynny'n berthnasol;
- Mesurau perfformiad ar y camau y mae CNC yn eu cymryd fel sefydliad i fynd i'r afael â'r heriau, cyfleoedd a'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer SMNR a nodir yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol yn y Datganiadau Ardal.

Mae hefyd yn darparu dull i CNC gyflwyno adroddiad yn flynyddol ar y camau a gymerwyd a'r cynnydd y mae wedi'i wneud yn cyflawni ei amcanion llesiant.

## 4. Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol

### 4.1 Diben a bwriad

#### **Adran 8 – Dyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol**

- (1) Rhaid i CNC baratoi a chyhoeddi adroddiadau yn unol â'r adran hon sy'n cynnwys ei asesiad o gyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru.
- (2) Rhaid i bob adroddiad nodi, ymysg pethau eraill —
  - (a) asesiad CNC o'r graddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni;
  - (b) asesiad CNC o fioamrywiaeth (gan gynnwys yr organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd a gynhwysir ar unrhyw restr a gyhoeddir o dan adran 7);
  - (c) yr hyn y mae CNC yn ei ystyried yw'r prif dueddiadau a ffactorau sy'n effeithio, ac sy'n debygol o effeithio, ar gyflwr adnoddau naturiol;
  - (d) unrhyw agweddau ar gyflwr adnoddau naturiol y mae CNC yn ystyried nad oes ganddo wybodaeth ddigonol amdanynt i wneud asesiad.
- (3) Rhaid i CNC gyhoeddi ei adroddiad cyntaf cyn diwedd y cyfnod o bedwar mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r adran hon yn dod i rym.
- (4) Wedi hynny, rhaid i CNC gyhoeddi adroddiad cyn diwedd y flwyddyn galendr sy'n dod cyn unrhyw flwyddyn y mae etholiad cyffredinol arferol i fod i gael ei gynnal.
- (5) Rhaid i CNC gyhoeddi drafft o bob adroddiad sy'n ofynnol gan is-adran (4) cyn diwedd y flwyddyn galendr sy'n dod cyn y flwyddyn y mae'n rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.
- (6) Yn yr adran hon, ystyr "etholiad cyffredinol arferol" yw'r bleidlais a gynhelir mewn etholiad cyffredinol arferol o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (a. 32).

Diben yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yw:

- Darparu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr a chanolog ar reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yng Nghymru. Mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu amodau presennol.
- Darparu asesiad o sefyllfa a thueddiadau adnoddau naturiol ac ecosystemau<sup>2</sup>, ac asesiad o'r graddau y mae SMNR yn cael ei gyflawni.
- Darparu gwaelodlin ac wedyn mesur sut mae Cymru'n cyflawni amcan SMNR.
- Darparu tystiolaeth i hysbysu'r broses o adnabod risgiau, blaenoriaethau a chyfleoedd cenedlaethol ar gyfer SMNR.

Wrth wneud hyn, bydd yn

- Sicrhau bod y Polisi ar Adnoddau Naturiol yn cael ei gyflawni mewn cyd-destun lleol drwy ddatganiad ardal sy'n cael ei hysbysu gan y dystiolaeth briodol.

<sup>2</sup> Mae ecosystemau yn systemau gweithredol sy'n cynnwys bioamrywiaeth, yr amgylchedd ategol (aer, dŵr, mwynau, pridd) a'r rhyngweithiad rhynddynt.

- Sicrhau bod y dystiolaeth leol sy'n cael ei darparu wrth baratoi datganiad ardal yn cael ei chynnwys mewn adolygiadau o SoNaRR yn y dyfodol.
- Sicrhau bod y wybodaeth sydd ei hangen ar Weinidogion Cymru ar gael iddynt fel y gallant bennu blaenoriaethau ar gyfer cyfrannu at SMNR ar lefel genedlaethol.

## 4.2 Gofynion technegol

Bydd SoNaRR yn darparu sylfaen dystiolaeth genedlaethol i gynnwys y canlynol

### Adrodd ar y sefyllfa a'r tueddiadau presennol

Tystiolaeth ar lefel genedlaethol ar sefyllfa a thueddiadau presennol adnoddau naturiol Cymru, a chydnerthedd ecosystemau a'r gwasanaethau maent yn eu darparu, gan gynnwys

- Y prif ysgogwyr a'r pwysau sydd wedi achosi'r tueddiadau hynny
- Unrhyw ansicrwydd allweddol
- Risgiau i gydnerthedd ecosystemau a chyfleoedd i reoli'r risgiau hynny.
- Dealltwriaeth o lefel y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ein ecosystemau ar hyn o bryd a'r rhyngberthynas rhyngddynt. I gynnwys unrhyw ardaloedd sy'n darparu lefelau uchel o wasanaethau ar hyn o bryd, ardaloedd lle gellir gwneud gwelliannau i wasanaethau, ac ardaloedd lle mae cyfleoedd posibl.

### Asesiad o'r graddau y mae SMNR yn cael ei gyflawni

Dyma asesiad o i ba raddau mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni, drwy ddefnyddio'r 4 mesur canlynol:

- Mae adnoddau naturiol yn dirywio'n barhaus neu'n cael eu defnyddio'n gynt nag y gellir eu hailgyflenwi
- Nid yw iechyd a chydnerthedd ein ecosystemau ar draws y pedwar nodwedd cydnerthedd ecosystemau yn cael ei gyfaddawdu, ond yn hytrach yn cael ei wella os oes cyfle i wneud hynny
- Gwneir y gorau o gyflenwad gwasanaethau ecosystem gwahanol (o ran cydnerthedd yr ecosystem a'r cyflenwad o fanteision llesiant).
- Mae'r manteision sy'n deillio o wasanaethau ecosystem yn cael eu dosbarthu'n deg a chyfartal ac mae eu cyfraniad i lesiant yn cyflawni ein hanghenion sylfaenol ac nid ydynt yn dirywio yn awr nac yn y tymor hir.

Beth ydym am ei fesur?	Pam fod angen ei fesur?
Cyflenwadau o adnoddau naturiol (adnewyddadwy a rhai anadnewyddadwy) mewn cysylltiad â'r galw presennol a'r galw a ragwelir yn y dyfodol.	Bydd hyn yn ein galluogi i gyfrifo faint o adnoddau naturiol adnewyddadwy sy'n cael eu defnyddio, a chyfradd y defnydd hwnnw, er mwyn penderfynu a ydynt yn debygol o fod yn sefydlog, yn dirywio, neu'n cael eu defnyddio'n gyflymach nag y gellir eu hailgyflenwi, ar unrhyw adeg. Yn achos adnoddau anadnewyddadwy, mae rheoli cynaliadwy yn galw am ddsbarthiad teg o fuddiannau rhwng cenedlaethau'r presennol a chenedlaethau'r dyfodol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfradd disbyddu er mwyn gallu adnabod</li> </ul>

Beth ydym am ei fesur?	Pam fod angen ei fesur?
	<p>atebion cynaliadwy eraill ar ôl i'r adnodd gael ei ddisbyddu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dal o leiaf rhai o'r manteision presennol er budd cenedlaethau'r dyfodol</li> </ul>
Nodweddion ecosystemau cydnerth (gan gynnwys bioamrywiaeth)	Rydym eisiau sicrhau bod ein ecosystemau yn cynnal (ac yn adennill) eu cydnerthedd a'u gallu i ddarparu'r gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt yn awr, ac ar gyfer y dyfodol
Amrediad y gwasanaethau yr ydym yn eu cael o ecosystemau	Drwy weithredu i ddatblygu cydnerthedd ecosystemau, rydym eisiau sicrhau bod y lefelau uchaf o wasanaethau ecosystem yn cael eu creu, i gael cydnerthedd ecosystem a manteision ar gyfer llesiant.
<p>Dosbarthu manteision ecosystemau ar draws anghenion cymdeithas yn awr ac yn y dyfodol.</p> <p>Cyfraniad cyflenwadau o adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystem yng Nghymru ar draws y nodau Llesiant.</p>	<p>Rydym eisiau sicrhau ein bod yn darparu manteision i ecosystemau yn y ffordd orau bosibl. Mae hyn yn cynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod manteision yn cael eu dosbarthu'n deg a chyson ar draws cymdeithas er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu ein hanghenion sylfaenol</li> <li>• Gwneir y gorau o gyfraniad gwasanaethau ecosystem a chyflenwadau o adnoddau naturiol ar draws y nodau Llesiant.</li> </ul>

### Senarios yn y dyfodol

Tystiolaeth ar lefel genedlaethol o newidiadau yn y dyfodol; ysgogwyr a phwysau allweddol a allai arwain at newidiadau i adnoddau naturiol ac ecosystemau yn y dyfodol, gan gynnwys

- Sut y gallent effeithio ar gyflwr a chydnerthedd ecosystemau a'r gwasanaethau maent yn eu darparu yn y dyfodol;
- Y prif faterion/gwendidau i'w hystyried;
- Senarios credadwy gwahanol a sut y gallai'r prif broblemau a gwendidau effeithio ar bob un.

### Blaenoriaethau a chyfleoedd i weithredu ar y lefel genedlaethol

Dylai'r asesiad o'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd i weithredu gynnwys

- Ble dylid canolbwyntio ar gamau gweithredu i ddiogelu a gwella cydnerthedd adnoddau naturiol ac ecosystem i gael yr effaith fwyaf; a pham.
- Ble dylid canolbwyntio'r camau gweithredu ar ddsbarthu gwasanaethau ecosystem i gyflawni anghenion cymdeithasol er mwyn creu'r effaith fwyaf; a pham.
- Ble gellir cymryd camau gweithredu ar gyfraniad adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystem Cymru er mwyn creu'r effaith fwyaf ar draws y nodau Llesiant.

### Asesiad o Fioamrywiaeth

Asesiad o fioamrywiaeth (gan gynnwys yr organebau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys ar unrhyw restr a gyhoeddir o dan adran 7). Ystyr bioamrywiaeth yw'r



amrywiaeth o organebau byw, p'un a ydynt ar lefel genedig, rhywogaeth neu ecosystem, sy'n chwarae rôl allweddol yng ngweithrediad ecosystemau.

### **Dangosyddion canlyniad ar gyfer SMNR ar lefel genedlaethol**

Bydd yr adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn darparu cyfres o ddangosyddion er mwyn mesur a monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yng Nghymru. Bydd y rhain yn cefnogi'r gyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol. Yn benodol, dylai'r dangosyddion hyn ein galluogi i asesu cynnydd yn erbyn y 4 mesur SMNR, gan ddarparu gwaelodlin ac wedyn i fesur cynnydd ar sut mae Cymru fel gwlad yn symud tuag at SMNR.

### **4.3 Adroddiad Drafft**

Disgwylir cyhoeddi adroddiad drafft 12 mis cyn cyhoeddi pob adroddiad llawn er mwyn dechrau hysbysu'r Polisi ar Adnoddau Naturiol. Bydd yn

- disgrifio beth sy'n dod i'r amlwg fel newidiadau yn sgil y dystiolaeth ers y SoNaRR diwethaf.
- Disgrifio unrhyw fylchau newydd mewn tystiolaeth ac unrhyw ddiweddariadau i fylchau mewn tystiolaeth a nodwyd yn flaenorol; sut mae'r gwaith o lenwi'r bylchau hyn yn cael ei flaenoriaethu, a chynnwys unrhyw waith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hwy.
- cynnwys diweddariad ar naws yr adroddiad nesaf.

Bydd tystiolaeth newydd a ddaw i'r amlwg yn y 12 mis dilynol yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad terfynol, ynghyd ag unrhyw argymhellion polisi sy'n deillio ohono.

## 5. Datganiadau Ardal

### 5.1 Diben a bwriad

#### Adran 11 – Datganiadau ardal

(1) Rhaid i CNC baratoi a chyhoeddi datganiadau (“datganiadau ardal”) ar gyfer yr ardaloedd o Gymru y mae CNC yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben hwyluso gweithrediad y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol.

(2) Caiff CNC ddefnyddio’r datganiadau ardal at unrhyw ddiben arall wrth arfer ei swyddogaethau.

(3) Rhaid i bob datganiad ardal—

(a) egluro pam y paratowyd datganiad ar gyfer yr ardal, drwy gyfeirio at—

(i) yr adnoddau naturiol yn yr ardal,

(ii) y manteision y mae’r adnoddau naturiol yn eu cynnig,

(iii) y blaenoriaethau, y risgiau a’r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy;

(b) egluro sut y mae egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wedi eu cymhwyso wrth baratoi’r datganiad;

(c) datgan sut y mae CNC yn bwriadu ymdrin â’r blaenoriaethau, y risgiau a’r cyfleoedd, a sut y mae’n bwriadu cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth wneud hynny;

(d) pennu’r cyrff cyhoeddus y mae CNC yn ystyried y gallant gynorthwyo i ymdrin â’r blaenoriaethau, y risgiau a’r cyfleoedd.

(4) Rhaid i CNC sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael ei chynnwys yn o leiaf un o’r ardaloedd y mae’n paratoi datganiad ardal ar eu cyfer.

(5) Rhaid i CNC—

(a) cymryd pob cam rhesymol er mwyn gweithredu datganiad ardal, a

(b) annog eraill i gymryd camau o’r fath.

(6) Rhaid i CNC adolygu datganiadau ardal yn gyson a chaiff eu diwygio ar unrhyw adeg.

7) Cyn cyhoeddi datganiad ardal, rhaid i CNC ystyried a ddylid—

(a) ymgorffori cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall yn y datganiad ardal, neu

(b) ymgorffori’r datganiad ardal mewn cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall.

Diben datganiadau ardal yw hwyluso gweithrediad y Polisi ar Adnoddau Naturiol. Wrth wneud hyn byddant yn

- Cyflawni’r heriau, y cyfleoedd a’r blaenoriaethau cenedlaethol, sy’n canolbwyntio ar gyflawni’r canlyniadau â’r budd mwyaf i Gymru.

- Nodi'r lleoliad a'r graddfa (lle bo hynny'n berthnasol) er mwyn mynd i'r afael â'r heriau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau cenedlaethol yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol<sup>3</sup>,
- Darparu sylfaen dystiolaeth leol integredig
- Monitro a mesur canlyniadau SMNR, a sut y cafodd y Cynllun Adnoddau Naturiol ei weithredu ar lefel leol.

## 5.2 Blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol

Diben Datganiadau Ardal yw hwyluso gweithrediad y Polisi ar Adnoddau Naturiol, sy'n nodi'r heriau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

### **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) adran 11**

(1) Rhaid i CNC baratoi a chyhoeddi datganiadau ("datganiadau ardal") ar gyfer **yr ardaloedd o Gymru y mae CNC yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben hwyluso gweithrediad y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol.**

(2) Caiff CNC ddefnyddio'r datganiadau ardal at unrhyw ddiben arall wrth arfer ei swyddogaethau.

(4) Rhaid i CNC sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael ei chynnwys yn o leiaf un o'r ardaloedd y mae'n paratoi datganiad ardal ar eu cyfer.

Bydd y gweithgarwch yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau â'r budd mwyaf i Gymru, fel y'u nodir yn yr heriau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau cenedlaethol isod, ynghyd ag unrhyw risgiau a chyfleoedd lleol ar gyfer SMNR, a nodwyd wrth eu datblygu. Mae datganiadau ardal hefyd yn rhoi cyfle i CNC ymgorffori SMNR ar draws ei swyddogaethau, i flaenoriaethu a llywio camau gweithredu, ac i gyfrannu at broses cynllunio busnes corfforaethol CNC.

### **Dyma'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel y nodwyd yn yr Adroddiad ar Adnoddau Naturiol:**

- Gwyrddoi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth
- Diogelu a chynyddu storffeydd carbon mewn priddoedd a biomas
- Cynnal capasiti cynhyrchiol, yn arbennig drwy wella ansawdd priddoedd a bioddiogelwch
- Lleihau'r risg o lifogydd
- Cefnogi dulliau o liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu drwy dulliau ecosystem
- Lleihau llygredd sŵn a lefelau llygredd yn yr aer, a gwella ansawdd yr aer
- Gwella ansawdd a chyfaint ein dŵr
- Cymryd camau i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, er enghraifft drwy ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac ynni adnewyddadwy
- Cefnogi dulliau ataliol ar gyfer canlyniadau iechyd, gyda ffocws yn benodol ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol. Er enghraifft, llygredd aer a sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, mynd i'r afael â segrudod corfforol, ac iechyd meddwl.
- Cefnogi camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd.

<sup>3</sup> Mae Adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC hwyluso cyflwyno polisi adnoddau naturiol cenedlaethol drwy baratoi, cyhoeddi a gweithredu 'datganiadau ardal'. Mae isadran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC sicrhau bod pob ardal o Gymru wedi'i chwmpasu gan un neu fwy o'r datganiadau ardal ond bod nifer, lleoliad a graddau daearyddol yr ardaloedd y cynhyrchir datganiadau ar eu cyfer yn unol â'r hyn a ystyrir sydd fwyaf priodol ar gyfer hwyluso gweithrediad y polisi.

- Cefnogi cydlyniant cymunedol
- Cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog.

### **Dyma'r Blaenoriaethau Cenedlaethol ar gyfer gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau ac i wireddu'r cyfleoedd:**

- Cyflawni atebion sy'n seiliedig ar natur, gyda ffocws penodol ar y canlynol, sydd wedi'u pennu yn SoNaRR a'r Polisi ar Adnoddau Naturiol fel yr atebion sy'n cyflawni'r budd mwyaf ar gyfer datblygu cydnerthed ecosystem a chyflawni manteision ehangach ar draws y nodau llesiant.
  - Datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth. Mae rhwydweithiau ecolegol cydnerth yn golygu cysylltu'r safleoedd a warchodir yng Nghymru gydag ardaloedd eraill o fioamrywiaeth a chefn gwlad yn ehangach. Mae hyn yn galluogi rhywogaethau i symud y tu mewn iddynt yn ôl yr angen ar gyfer pob cam o'u cylchoedd bywyd. Bydd datblygu rhwydweithiau yn golygu adfer cynefinoedd sydd wedi'u targedu a datblygu prosiectau ar raddfa tirluniau ac atebion sy'n seiliedig ar natur.
  - Cynyddu'r seilwaith gwyrdd o fewn ac o amgylch ardaloedd trefol
  - Rheoli ac addasu ardaloedd arfordirol
  - Cynyddu brigdwf a choetiroedd wedi'u lleoli'n dda er mwyn creu'r gwerth gorau o ran gwasanaethau ecosystem
  - Cynnal, gwella ac adfer gorlifdiroedd a systemau hydrogeolegol er mwyn lleihau'r risg o lifogydd a gwella ansawdd a chyfaint dŵr
  - Adfer ucheldiroedd a'u rheoli er mwyn sicrhau manteision bioamrywiaeth, carbon, dŵr, rheoli llifogydd, ynni a hamdden
- Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon (gan gynnwys symud tuag at economi gylchol) ac ynni adnewyddadwy
- Defnyddio dull sy'n seiliedig ar le.

### **5.3 Elfennau gofodol**

Mae gan nifer o'r blaenoriaethau cenedlaethol a nodir uchod elfen ofodol yn eu dull cyflawni. Mae'r gwerthusiad cynaliadwyedd ar gyfer y Polisi ar Adnoddau Naturiol wedi nodi bod *atebion sy'n seiliedig ar natur sydd wedi'u targedu at yr ardaloedd a fyddai'n elwa fwyaf - lleoliad, graddfa a chyflymder cyflwyno prosiectau - yn hollbwysig*. Mae datganiadau ardal yn chwarae rhan allweddol o ran cyflwyno elfen ofodol y Polisi ar Adnoddau Naturiol drwy nodi'r ardaloedd hynny yng Nghymru lle gall gweithredu ar y raddfa gywir, yn uniongyrchol gan CNC a drwy eiriol gan eraill, gynyddu'r manteision a chanfod cydweithrediad ar draws meysydd polisi. Y bwriad yw bod gweithredoedd CNC ac eraill yn canolbwyntio ar yr ardaloedd a fyddai'n elwa fwyaf a bod angen nodi'r ardaloedd hyn yn glir, yn ogystal â'r rhesymeg pam eu bod wedi'u blaenoriaethu.

### **5.4 Graddfa**

Mae'r tabl canlynol yn dangos y raddfa ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol sydd ag elfen ofodol yn eu dull cyflawni.

<b>Her neu gyfle cenedlaethol</b>	<b>Y raddfa ofodol ar gyfer gweithredu</b>
-----------------------------------	--

Gwyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth	Ecosystem
Diogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas	Wedi'i bennu gan sensitifrwydd
Cynnal capasiti cynhyrchiol, yn arbennig drwy wella ansawdd priddoedd a bioddiogelwch	Wedi'i bennu gan sensitifrwydd
Lleihau'r risg o lifogydd	Dalgylch
Cefnogi dulliau lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu drwy ddulliau ecosystem	Ecosystem
Lleihau llygredd sŵn a lefelau llygredd yr aer, a gwella ansawdd yr aer	Wedi'i bennu gan sensitifrwydd
Gwella ansawdd a sicrhau swm ein dŵr	Dalgylch neu ryngwyneb rhwng tir/môr
Cynyddu ynni adnewyddadwy	Ffactorau lleol
Cefnogi dulliau ataliol ar gyfer canlyniadau iechyd	Wedi'i bennu gan sensitifrwydd
<b>Mae nifer o'r materion yn gysylltiedig a gellir mynd i'r afael â hwy drwy'r un opsiynau/atebion – yn benodol, drwy'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer SMNR a nodir uchod.</b>	

## 5.5 Sylfaen dystiolaeth integredig ar lefel leol

Wrth ddatblygu datganiadau ardal, cesglir tystiolaeth leol ar SMNR. Bydd datganiadau ardal yn darparu sylfaen dystiolaeth integredig, leol, a fydd yn hysbysu ac yn adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth genedlaethol yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Parciau Cenedlaethol, AHNE ac Aseidiadau Llesiant ystyried y dystiolaeth yn y datganiadau ardal.

### **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) adran 11**

(3) Rhaid i bob datganiad ardal egluro pam y paratowyd datganiad ar gyfer yr ardal, drwy gyfeirio at

- \* yr adnoddau naturiol yn yr ardal,
- \* y manteision y mae'r adnoddau naturiol yn eu cynnig, a
- \* y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y mae angen ymdrin â hwy;

Mewn cysylltiad ag adran 11 (3) (iii) y Ddeddf, ' y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy'; mae 'blaenoriaethau' yn cyfeirio at y blaenoriaethau cenedlaethol a nodir yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol uchod. Ni fwriedir i flaenoriaethau newydd gael eu datblygu wrth lunio Datganiadau Ardal. Mae 'manteision' yn golygu 'gwasanaethau' ecosystem.

## 5.6 Blaenoriaethau gweithredu

Mae Datganiadau Ardal yn ganolog i gyflawni diben cyffredinol CNC ac i alluogi CNC i gynllunio, blaenoriaethu a gyrru ei holl weithgareddau wrth symud ymlaen.

### **Deddf Amgylchedd (Cymru) adran 11**

(3) Rhaid i bob datganiad ardal

- egluro sut y mae egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wedi eu cymhwyso wrth baratoi'r datganiad;
- datgan sut y mae CNC yn bwriadu ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd, a sut y mae'n bwriadu cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth wneud hynny;
- pennu'r cyrff cyhoeddus y mae CNC yn ystyried y gallant gynorthwyo i ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd.

(5) Rhaid i CNC

- cymryd pob cam rhesymol er mwyn gweithredu datganiad ardal, ac
- annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Mae rhai o'r blaenoriaethau, yr heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol yn sôn am gamau gweithredu y gall CNC eu cymryd yn uniongyrchol fel sefydliad gyda'r ystod eang o offer ac arfau sydd ganddo i weithredu SMNR – er enghraifft, drwy reoleiddio, darparu cyngor a chymorth, a drwy weithgareddau rheoli tir uniongyrchol. Bydd yr arfau newydd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) – pwerau arbrofol a chytundebau rheoli tir – yn hanfodol wrth gyflawni'r canlyniadau. Gall y gwerthusiad gyfrannu at hyn.

Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau, yr heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol, bydd angen i CNC weithio gydag eraill ac annog eraill i gymryd camau. Bydd CNC yn chwarae rôl allweddol wrth hwyluso cydweithredu a rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau rhag cydweithio.

## **5.7 Adrodd yn ôl**

O dan atodlen 1, paragraff 22 o Orchymyn Sefydlu CNC, mae gofyniad i baratoi adroddiad blynyddol ar sut y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn. Dyma fydd y mecanwaith y bydd CNC yn ei ddefnyddio i adrodd yn ôl ar gynnydd yn erbyn ei ddiben cyffredinol i fynd ar drywydd SMNR a sut y mae'r Polisi ar Adnoddau Naturiol wedi'i roi ar waith mewn cyd-destun lleol drwy gyfrwng Datganiadau Ardal. **Gweler adran 3.3.**

## Atodiad

### Cymhwyso diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru ar draws rolau a swyddogaethau a rheoli gwrthdaro

Mae CNC yn cyflawni llawer o rolau gwahanol.

- **Cynghorydd:** *prif gynghorydd Llywodraeth Cymru, a chynghorydd diwydiant a'r sector cyhoeddus a gwirfoddol ehangach, ynghyd â chyfathrebwr ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd a'i ffynonellau naturiol*
- **Rheoleiddiwr:** *yn gwarchod pobl a'r amgylchedd, gan gynnwys y diwydiannau morol, coedwigaeth a gwastraff, ac yn erlyn y rhai sy'n torri'r rheoliadau rydyn ni'n gyfrifol amdanynt*
- **Dynodwr:** *ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – ardaloedd sydd o werth neilltuol oherwydd eu bywyd gwyllt neu eu daeareg, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), a Pharciau Cenedlaethol, yn ogystal â chyhoeddi Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol*
- **Ymatebwr:** *i tua 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol y ceir gwybod amdanynt bob blwyddyn, fel ymatebwr argyfwng Categori 1*
- **Ymgynghorai statudol:** *i tua 9,000 o geisiadau cynllunio y flwyddyn*
- **Rheolwr/Gweithredwr:** *yn rheoli saith y cant o dir Cymru, sy'n cynnwys coetiroedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, amddiffynfeydd dŵr a llifogydd, ac yn gweithredu ein canolfannau ymwelwyr, ein cyfleusterau hamdden, ein deorfeydd a labordy*
- **Partner, Addysgwr a Galluogwr:** *y prif gydweithredwr gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn darparu cymorth grant, ac yn helpu amrywiaeth eang o bobl i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd dysgu; yn gweithredu fel catalydd ar gyfer gwaith eraill*
- **Casglwr tystiolaeth:** *monitro'n hamgylchedd, comisiynu a gwneud gwaith ymchwil, datblygu'n gwybodaeth, a bod yn gorff cofnodion cyhoeddus*
- **Cyflogwr:** *bron i 1,900 o staff, yn ogystal â chefnogi swyddi eraill trwy waith contract*

O fewn unrhyw sector neu system, gall CNC gyflawni sawl rôl. Bydd CNC yn camu i'r rolau gwahanol hyn ar adegau gwahanol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r hyblygrwydd a'r disgrisiwn sydd gan CNC wrth gyflawni pob rôl yn amrywio, yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth ategol yn ogystal â pholisïau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Drwy ddeall rolau gwahanol CNC, bydd yn haws deall beth sydd angen ei newid i alinio'r rôl honno at amcanion ac egwyddorion SMNR.

I ychwanegu at y cymhlethdod hyn, gallai rôl CNC mewn sector neu system benodol gael ei diffinio gan ddeddfwriaeth, polisi neu ganllaw sy'n eiddo i eraill o fewn y system. Gallai hynny fod ar ffurf Polisi neu Ganllaw Llywodraeth Cymru neu gan gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru (megis Awdurdodau Lleol). Golyga hynny fod CNC, mewn rhai amgylchiadau, yn ddibynnol ar gyfres o newidiadau i ganllawiau gan Lywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth Leol.

Bydd yn cymryd amser i ymwreiddio gofynion y diben newydd yn llawn ar draws rolau a swyddogaethau CNC. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda CNC drwy raglen ar y cyd i weithio drwy fanylion y newidiadau gofynnol ym mholisiau, gweithdrefnau a chanllawiau CNC. Mewn rhai enghreifftiau, mae'n bosibl y bydd y cydweithio hyn yn tynnu sylw at yr angen i newid y ddeddfwriaeth ategol. Rydym wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol. Mae enghraifft isod o gwmpas y gwaith a siart llif penderfyniad. Cofnodir y cynnydd yn Adroddiad Blynyddol CNC.



## Defnyddio diben cyffredinol CNC a rheoli gwrthdaro

Mae diben cyffredinol CNC yn ddyletswydd gyffredinol sy'n cyd-fynd â phob swyddogaeth. Wrth gyflawni ei ddiben cyffredinol, rhaid i CNC arfer pob swyddogaeth yn unol â'r diben/dibenion y mae'r swyddogaeth honno'n berthnasol iddi h.y. rhaid i CNC gyflawni diben y swyddogaeth a chydymffurfio â'r rhwymedigaethau penodol a osodwyd gan y swyddogaeth honno. Gall y diben cyffredinol effeithio ar sut y caiff y swyddogaeth ei gweithredu **ond dim ond i'r graddau y mae gan CNC ddisgresiwn i weithredu**. Gyda rhai swyddogaethau penodol, mae'n bosibl mai ychydig iawn o ddisgresiwn sydd ganddo. Gydag eraill, efallai bydd ganddo gryn dipyn o ddisgresiwn.

Gellir llunio prosesau i ddelio â'r materion hyn, a hynny ar lefel polisi/proses neu ddeddfwriaeth fel sy'n berthnasol i'r swyddogaeth (neu ar gyfer nifer o swyddogaethau mewn grŵp ar ffurf proses).

Mae'r offeryn hwn yn dangos sut gallai CNC ddarlunio'r broses a ddefnyddir gan CNC i wneud penderfyniadau er mwyn cefnogi ei ddiben cyffredinol.

Mae'n bwysig ystyried y swyddogaeth(au) penodol o fewn y system ehangach a'r rolau gwahanol ar draws y system sy'n cwmpasu gwaith CNC (fel a ddangosir yn yr enghraifft isod ar gyfer coetiroedd a fforestydd).

<b>1. Swyddogaeth</b>	Beth yw'r swyddogaeth sy'n cael ei chyflawni a diben y swyddogaeth honno? Nodwch lle mae'r swyddogaeth yn gorwedd o fewn y system ehangach sy'n cwmpasu gwaith CNC.
<b>2. Amcan SMNR</b> <b>Beth ydym yn ceisio ei gyflawni</b> Cyfeiriwch at adran 3.1 y canllawiau	Sut mae amcan yr SMNR yn berthnasol i ddiben y swyddogaeth?
<b>Mae camau 1 a 2 uchod yn arwain y camau nesaf.</b>	
<b>3. Egwyddorion SMNR</b> <b>Sut ydym am weithio</b> Cyfeiriwch at adran 3.1 y canllawiau	Gan ystyried camau 1 a 2 uchod, meddyliwch sut mae'r holl egwyddorion SMNR yn berthnasol o fewn y cyd-destun hwnnw.

<p><b>4. Datblygu dewisiadau</b></p>	<p>Y nod yma yw archwilio ystod eang o ddewisiadau (mewn perthynas â'r rhan benodol o'r system ehangach sy'n cwmpasu'r swyddogaeth) drwy ddefnyddio egwyddorion SMNR yng nghyd-destun camau 1, 2 a 3 uchod.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut bydd y dewisiadau'n newid yn y cyfnod byr / canolig pan fydd datganiadau ardal ar gael?</li> </ul>
<p><b>5. Yr Ateb</b></p>	<p>Gan ystyried yr uchod i gyd, beth yw'r ateb gorau posibl wrth arfer swyddogaeth benodol? Os nad oes un dewis amlwg ar gyfer arfer y swyddogaeth honno, mae angen i CNC benderfynu pa un yw'r gorau drwy bwysu a mesur ei holl swyddogaethau cyffredinol a phenodol, gan gynnwys y diben cyffredinol.</p>
<p><b>6. Adnabod unrhyw wrthdaro wrth ddefnyddio SMNR ar draws swyddogaeth</b></p> <p><b>Mae adran 3.2 y canllawiau yn nodi:</b> Mae diben cyffredinol CNC yn berthnasol ar draws holl swyddogaethau CNC (sy'n gynnwysedig mewn ystod eang o ddeddfwriaeth) ac felly ar draws ei holl ddyletswyddau a phwerau statudol. Nid yw'r diben cyffredinol yn drech na swyddogaeth benodol ac fe'i luniwyd fel nad yw'n gwrthdaro'n gyfreithiol â swyddogaethau na dyletswyddau presennol CNC. Fodd bynnag, bydd angen i CNC ystyried sut mae ei ddiben cyffredinol yn gweithio ar y cyd â'i ddyletswyddau eraill fesul achos.</p>	<p>A oes unrhyw wrthdaro wedi dod i'r golwg? Os oes, dylid cofnodi hynny yn yr adroddiad blynyddol er mwyn cyfrannu at y rhaglen ar y cyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Os yw'n wrthdaro sy'n gysylltiedig â sefyllfa polisi – dylid tynnu sylw ato fel mater i'w ystyried wrth ddiwygio'r Polisi ar Adnoddau Naturiol yn yr adroddiad blynyddol.</li> <li>➤ Os yw'n wrthdaro sy'n ymwneud â deddfwriaeth neu ddyletswydd gyfreithiol - dylid tynnu sylw ato drwy'r adroddiad blynyddol</li> <li>➤ Nid y naill na'r llall, ond lle bernir nad yw'n cael ei ddatrys drwy fecanweithiau yn y ddeddfwriaeth nac mewn rheoliad presennol, a lle gallai elfen o herio godi. Os felly, dylech ddangos eich ffordd o weithio a darparu tystiolaeth a lefelau hyder i gefnogi eich dull gweithredu. Mae'n bosibl y bydd angen rhoi mecanweithiau newydd ar waith i ddelio â hyn.</li> </ul>
<p><b>7. Adnabod unrhyw wrthdaro ar draws y system ehangach lle mae'r swyddogaeth ar waith.</b></p>	<p>A oes unrhyw wrthdaro wedi dod i'r golwg?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Os oes, dylid cofnodi hynny yn yr adroddiad blynyddol er mwyn cyfrannu at y rhaglen ar y cyd, ac adnabod y rhan o'r system sydd angen ei newid.</li> </ul>

## Llunio Datganiadau Ardal erbyn 2020

- Cyflwyno'r Polisi ar Adnoddau Naturiol mewn cyd-destun lleol
- Galluogi CNC i ymwreiddio SMNR ar draws swyddogaethau
- CNC i gymryd camau adrodd allweddol yng nghyd-destun SMNR.

## Gweithdai ar Flaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol

Mehefin 18

1. Cyflawni seilwaith gwyrdd trefol

Medi 18

2. Mwy o goetiroedd mewn lleoliadau gwell

Hydref 18

3. Rheoli'r ucheldir o safbwynt hamdden, bioamrywiaeth, ansawdd dŵr a rheoli risg llifogydd, carbon

Tachwedd 18


4. Rheoli dalgylchoedd o safbwynt ansawdd dŵr, adnoddau dŵr a llifogydd

5. Dulliau economi gylchol (i'w gadarnhau)

## Blaenoriaeth Genedlaethol: Mwy o goetiroedd mewn lleoliadau gwell

Darlun o'r ystod o swyddogaethau a gweithgareddau a gyflawnir gan CNC

Figure 3: NRW delivery framework for the WGWE



[https://cdn.naturalresources.wales/media/686092/purpose-and-role-of-the-wgwe\\_web-version\\_cym.pdf?mode=pad&rnd=131765584290000000](https://cdn.naturalresources.wales/media/686092/purpose-and-role-of-the-wgwe_web-version_cym.pdf?mode=pad&rnd=131765584290000000) (tud 22)

## Rolau gwahanol CNC

### Cynghorydd technegol i Lywodraeth Cymru ar y Strategaeth Coetiroedd

- Cynghori ar fanteision ehangach coetiroedd Cymru o ran llesiant.

### Rheolwr/gweithredwr Ystad Goetir Llywodraeth Cymru gan sicrhau cydymffurfiaeth ac achrediad UKWAS.

- Cynlluniau Adnoddau Fforestydd yn amlinellu i randdeiliaid yr hyn sydd angen ei wneud ar raddfa ofodol
- Cyflawni gofynion cyfreithiol fel rheolwr tir, megis Iechyd a Diogelwch

### Rheolwr a chynghorydd ar gyfer coetiroedd fel rhan o'r rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig.

### Dynodydd SoDdGA gan gynnwys coetiroedd, Parciau Cenedlaethol ac AHNE

### Rheoleiddiwr

- Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol
- Trwyddedau cwmpo coed
- Ymgynghorai statudol yn ymwneud â safleoedd gwarchoddedig, yn cynnwys coetiroedd

Rhaglen Creu Coetiroedd Glastir – **ar ran Llywodraeth Cymru**